# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 11 Hydref, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), B. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), C.P. Franks a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd i. Buckley.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd J. Aviet ddatganiad o ddiddordeb mewn perthynas ag Eitem 5 ar yr Agenda – Cronfa Grant Cymunedau Cryf. Natur y buddiant oedd bod merch y Cynghorydd Aviet yn aelod o Grŵp Theatrig Billboard. Oherwydd natur yr adroddiad, arhosodd y Cynghorydd Aviet yn y cyfarfod wrth ystyried yr Eitem Agenda.

EITEM AGENDA 4. BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – TROSOLWG GAN Y CYFARWYDDWR LLE –

ARGYMHELLWYD – NODI cynnwys y cyflwyniad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CRONFA GRANT CYMUNEDAU CRYF (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cynnwys yr adroddiad a phenderfyniadau'r Cabinet a wnaed ar 9 Mehefin, 2022.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd. nodwyd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) BOD Pwyllgor Craffu Yr Amgylchedd ac Adfywio yn cael cyflwyniad ar y Bartneriaeth Natur Leol pan gyflwynir yr adroddiad diweddaru nesaf ym mis Rhagfyr.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD DIWEDDARU PROSIECT SERO (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cynnydd y manylwyd arno yn yr adroddiad mewn perthynas â nifer o'r heriau o fewn y Cynllun Her Newid Hinsawdd.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi cyfeirnod y Cabinet a’r Adroddiad Hunanasesu Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg sydd ynghlwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i asesu’r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran cyflawni ymrwymiadau ei Gynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2021/22 fel y’i haliniwyd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol yn unol ag adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

EITEM AGENDA 10. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL BRO MORGANNWG 2011-2026: ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL 2021/2022 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y DYLID derbyn pedwerydd Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref, 2022 ac i’w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 11. CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.

(2) Nodi cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Rheswm dros yr argymhellion

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22.

EITEM AGENDA 12. CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – NODI’r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

EITEM AGENDA 13. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 AWST, 2022 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2022/23 yr Awdurdod.

(2) NODI'r trefniadau i wneud iawn am y gorwariant sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r alldro refeniw rhagamcanol ar gyfer 2022/23 yn ogystal â phwysau chwyddiant tâl a phrisiau sy'n dod i'r amlwg yn 2022/23.

EITEM AGENDA 14. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.